**Beirniadaeth Cystadleuaeth 343**
**Barddoniaeth Bl. 10 ac 11 (Fy Nghymru)**
**Beirniad – Sian Northey**

Mae'n gysur mawr i mi fod yna 21 o bobl ifanc yn fodlon neilltuo amser i ysgrifennu cerdd, a bod yna 21 o bobl ifanc yn fodlon rhyddhau eu cerddi i gael eu beirniadu mewn cystadleuaeth. Tydi o ddim yn beth hawdd i'w wneud, hyd yn oed o dan glogyn ffug enw.

Mi allai "Fy Nghymru" fod wedi cael ei osod fel testun mewn eisteddfod unrhyw bryd yn y can mlynedd diwethaf. Hynny efallai arweiniodd at fy mhrif feirniadaeth o nifer o'r cerddi – roedd tueddiad iddynt fod ychydig yn ystrydebol a pheidio gwneud llawer mwy na rhestru gwahanol ffeithiau am Gymru, a'r rhai hynny yn aml iawn yn ffeithiau eithaf cydnabyddus. Ond roedd y goreuon yn gadael i mi weld fy ngwlad o safbwynt gwahanol.

Mi ydw i wedi rhannu'r cerddi yn ddau ddosbarth, ond hyd yn oed yn y cerddi dw i wedi'u gosod yn yr ail ddosbarth roedd yna bethau arbennig, ym mhob un ohonyn nhw. Dyma ychydig sylwadau ar waith bob un o'r beirdd hynny, heb fod mewn unrhyw drefn benodol.

**Cennin Pedr.** Dyma gerdd eithaf syml yn sôn am gwm penodol, ond fel gyda chân Huw Chiswell y cyfeirir ati gan y bardd, mae hynny yn cynrychioli cariad pawb at eu rhan nhw o Gymru.

**Harlech Ddu.** Ceir rhestr o'r holl lefydd bach ble mae Cymru'n bodoli i'r bardd – bwrdd Sul Mamgu, dŵr oer yr afonydd, piano bach coch ac yn y blaen, ac yna sylw mwy cyffredinol ar y diwedd ynglŷn â pharhâd. Mae yna obaith cynnil hyfryd yn y gerdd er enghraifft "y nodyn anghywir sy'n troi'n gywir."

**Y Ddafad Golledig**. Dyma'r unig gerdd a gyflwynwyd mewn llawysgrif (pdf trwy'r Porth) ac roedd hynny rhywsut yn cyd-fynd â'i symlrwydd. Roedd ailadrodd y pennill cyntaf fel y pennill olaf yn effeithiol.

**Wyn.** Gan Wyn cawn gerdd am ymdeimlad y bardd o hanes ei ardal "rhwng y llechi llwyd a chysgod y llyn" a sut mae hynny'n rhoi gobaith iddo. Os 'da chi'n darllen y feirniadaeth hon darllenwch y llinell yna yn uchel – tydi ei sŵn hi'n hyfryd, a tydi'r ffaith nad oes gan lyn gysgod yn gwneud i chi stopio a meddwl?

**Vic Tomatos.** Cerdd am Bont Drefechan sydd yma a'r angen "os, drwy wyrth, y dringwn o'r dibyn at oroesiad" i gofio protestwyr dewr y gorffennol.

Dw i'n siŵr y byddai wedi bod yn gysur i'r protestwyr hynny wybod y byddai person ifanc yn eu harddegau yn 2026 yn sgwennu amdanynt.

**Sinsir.** Cerdd o ddau bennill – un yn disgrifio fel oedd pethau a'r ail yn dechrau gyda'r geiriau "Ond heddiw…" Efallai bod yna ormod o bentyrru delweddau i fy chwaeth i, ond maen nhw'n drawiadol ar adegau, megis "sibrydodd y cefnforoedd emynau."

**Seren.** Cerdd am lwyddiant tîm pêl droed dynion Cymru yn y gêm yn erbyn Gwlad Belg yn 2016, ac yn ogystal â'r copi Word mi ges i gopi wedi'i argraffu ar ben llun o gefnogwyr y wal goch. Mi oeddwn i'n hoffi'r canolbwyntio ar un digwyddiad a hynny'n cynrychioli teimladau'r bardd am ei Gymru.

**Rhyfelwr Gwir Harlech.** Mi oeddwn i'n hoffi'r ffug enw! Ac er nad oes yna unrhyw beth gwreiddiol iawn yn y gerdd mae'n wir bosib teimlo diffuantrwydd cariad Rhyfelwr Gwir Harlech at ei wlad a'i phobl.

**Llwyn Têr.** Mae rhyw anwyldeb yng ngherdd Llwyn Têr, a'i neges mai nad y cestyll a'r mynyddoedd na hyd yn oed y traddodiadau ydi ei Gymru o, ond yn hytrach ei gartref a'r bobl mae'n eu caru.

**Lili Wen.** Mae Lili Wen yn sôn am bob math o bethau sydd yng Nghymru. Efallai ei bod yn ormod o restr, ond mi oeddwn i'n hoff iawn o'r ddelwedd ar ddiwedd y gerdd o'r ddraig yn gafael yn ei llaw.

**John Albert Jones.** Dyma fardd arall lle, er nad oes yna efallai bethau newydd iawn yn cael eu dweud ganddo, mae'n gallu defnyddio ei gerdd (a hyd yn oed ei ffug enw) i ddangos cryfder ei gariad at Gymru.

**Enid Newham.** Mi wnaeth y llinell gyntaf, 'Mae'r cloc yn taro naw, a'r byd yn mynd yw [sic] le' wneud i mi ddisgwyl mwy o wreiddioldeb nac a gafwyd yng ngweddill y gerdd. Dw i'n cael yr argraff ei fod wedyn wedi meddwl 'well i mi sôn am hyn a well i mi sôn am y llall'.

**Dyfal doncwr.** O'r cerddi sy'n rhestru'r pethau disgwyliedig dyma un o'r goreuon. Mae mewn mydr ac odl sydd yn llifo'n naturiol ac mae'r amheuaeth yn y diwedd hefyd yn ei chodi i dir uwch.

**cyllell.** Dw i'n hoff iawn o'r ddau bennill cyntaf a'r ail adrodd sydd ynddynt, ond efallai bod y trydydd a'r pedwerydd pennill yn llai gwreiddiol, sydd yn drueni.

**Arianrhod Eurwen.** Cerdd arall lle mae pethau disgwyliedig yn cael eu rhestru, ond mi oeddwn i'n hoffi'r ddelwedd o bopeth yn plethu efo'i gilydd fel brethyn.

**Arad.** Mae hon yn gerdd uchelgeisiol ond efallai ychydig yn annelwig oherwydd hynny. Er hynny mae yna gymaint o bethau da ynddi hefyd, ac mi wnes i ei darllen sawl gwaith a phendroni cryn dipyn drosti.

**Rhoces.** Mae gan Rhoces iaith naturiol a chywir ac mae'r gerdd yn llifo'n rhwydd. Y gwendid yw nad oes yna unrhyw wreiddioldeb mawr yna. Mi fedra i ddychmygu y gallai Rhoces ysgrifennu geiriau caneuon "canol y ffordd" – ac nid beirniadaeth o gwbl ydi hynna!

Ac yna mi oedd fy ngwaith yn mynd yn anoddach gyda phedwar bardd oedd yn dod i'r brig gen i: **Cwrt, Titw Tomos Las, Teg a Non.** A tydi'r Urdd ddim yn caniatáu i ni rannu gwobrau.

**Cwrt.** Mae yna rywbeth yn arbennig am y gerdd hon. Mi oeddwn i'n uniaethu efo'r awydd i beidio neud ffỳs, yn gwingo wrth ddarllen am sgrechiadau'r iaith yn cuddio tu ôl i gefnau ei chefnogwyr, ac yn eithriadol falch o'r llygedyn o obaith yn y "Tell me more about it" sydd yn gorffen y gerdd.

**Titw Tomos Las.** Mae hon yn gerdd hir. Cerdd am Ddeallusrwydd Artiffisial, AI, ydi hi yn y bôn. AI sy'n cael ei gyfarch gan y bardd, ac mae'n gwneud i ni ystyried AI yng nghyd-destun cenedl fach ac iaith leiafrifol. Cerdd fydd yn aros yn y cof.

**Teg.** Yr hyn dw i'n hoffi am gerdd Teg yw bod angen meddwl ychydig pwy sy'n siarad. Mi ydw i'n credu mai Cymru ei hun sy'n deisyfu am "…y cyfle i fyw unwaith 'to,/Ac am gael bod yn ifanc am un dydd 'to." Mae yna gymaint o dristwch yn y llinellau yna.

**Non.** Pwt o stori, efallai stori wir, wedi'i hadrodd yn gynnil a thwyllodrus o syml geir gan Non. Ond mae'r olygfa yn y caffi wir yn rhoi darlun o Gymru heddiw ac o'r ddeuoliaeth a'r tyndra sy'n bodoli i gymaint ohonom, yn ogystal â'r "cilcyn o heulwen" a geir ambell dro. Dw i'n edmygu ei hymdeimlad â rythm llinell, ei gallu i beidio pregethu (ydi hi'n llithro fymryn, fymryn lleiaf oddi wrth hyn yn y pennill olaf ond un?), a'i ffydd yn y darllenydd i weld a dehongli.

Roedd hi'n anodd iawn dewis rhwng y pedwar bardd hwn. Weithiau tydi o ddim byd ond chwaeth un beirniad unigol ond mi hoffwn i roi'r wobr gyntaf i

Non, yr ail i Cwrt, a’r drydedd wobr i Titw Tomos Las. Petai pedair gwobr mi fyddai Teg hefyd yn cael ei gwobrwyo.

Diolch o galon i bawb am gystadlu – mi ydw i wedi cael cymaint o bleser o edrych ar Gymru trwy lygaid pobl ifanc.